# Cyfarwyddiadau ar gyfer Offeryn Hunanasesiad Maniffesto Kids in Museums

## Cyflwyniad

Mae Offeryn Hunanasesiad Maniffesto Kids in Museums yn rhoi'r cyfle i amgueddfeydd, safleoedd treftadaeth a sefydliadau diwylliannol wneud hunanarchwiliad ysgafn o'u gallu i gyflawni Maniffesto Kids in Museums. Mae ein Maniffesto yn gyfres o ganllawiau wedi eu seilio ar adborth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd am eu profiadau o ymweld ag amgueddfeydd.

Gall ymwreiddio'r Maniffesto yn eu gwaith helpu amgueddfeydd i wneud gwelliannau i'w cynnig i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r offeryn hunanasesu hwn wedi'i lunio'n arbennig i safleoedd sydd â chyllidebau cyfyngedig.

## Sut i ddefnyddio'r Offeryn Hunanasesiad

1. **Cwblhewch Ran 1: Tabl Hunanasesu.**
   Bydd hwn yn rhoi cyfle i chi werthuso'r ddarpariaeth sydd gan eich amgueddfa ar hyn o bryd i groesawu teuluoedd. Efallai y byddwch eisiau gofyn i aelodau eraill o staff, fel y staff blaen tŷ neu wirfoddolwyr, roi adborth ar agweddau penodol o'ch darpariaeth. Byddwch yn onest gyda'ch sgôr i bob adran. Defnyddiwch 0 os nad ydych yn cynnig yr agwedd hon yn eich amgueddfa ar hyn o bryd, 3 i gynrychioli sgôr cyfartalog a 5 i ddangos eich bod yn cyflawni'r meini prawf yn llawn, neu Amh. os nad yw'r adran hon yn berthnasol i'ch sefydliad. Efallai y byddwch eisiau adio eich sgorau i gyd i fesur eich perfformiad ymhob adran ond does dim marc pasio.

2. **Cwblhewch Ran 2: Tabl A - Cryfderau.**
   Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich tabl hunanasesu, edrychwch ar y meysydd lle cawsoch sgôr o 4 neu 5 a llenwch Ran 2: Tabl A – Cryfderau. Dyma'r meysydd lle'r ydych yn cyflawni ein Maniffesto'n llwyddiannus. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhannu eich llwyddiannau gyda chydweithwyr ar draws eich sefydliad. Er enghraifft, gallech wneud hyn yn eich cyfarfodydd staff, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr, mewn cylchlythyrau neu ar fyrddau bwletin. Gallech hefyd gyfrannu at nodwedd cyfryngau cymdeithasol #Manifesto Monday Kids in Museums.

3. **Cwblhewch Ran 2: Tabl B – Gwendidau a Chyfleoedd.**
   Unwaith y byddwch wedi cwblhau Tabl A, edrychwch ar y meysydd lle cawsoch sgôr o 3 neu'n is a llenwch Ran 2: Tabl B – Gwendidau a Chyfleoedd. Dyma'r meysydd y gallwch ystyried ymdrin â nhw fel sefydliad i wella eich darpariaeth i deuluoedd. Gallwch ddefnyddio'r erfyn hwn i feddwl am fanteision tymor byr cyflym, gwaith tymor canolig a hirach, ac i'ch helpu i flaenoriaethu eich newidiadau. Dim ots sawl maes mae eich sefydliad yn ei ddewis i wella arno, er enghraifft efallai y byddwch yn penderfynu dewis y pump gorau, neu fwy.

   Gweithiwch gyda chydweithwyr a/neu wirfoddolwyr ar draws eich sefydliad i sicrhau bod y gwaith wedi ei ymwreiddio. Er enghraifft, mae rhai amgueddfeydd wedi creu tîm traws-adrannol gyda 'hyrwyddwyr teulu' i weithio ar eu cynnig. Oes angen i chi gynnig hyfforddiant

© Kids in Museums 2024. Mae Offeryn Hunanasesu Kids in Museums yn eiddo deallusol i Kids in Museums. Mae wedi ei fwriadu at ddefnydd mewnol yn unig ac ni chaiff eich sefydliad ei ddosbarthu'n allanol heb ganiatâd.

i staff neu gynnwys bod yn groesawgar i deuluoedd yn eich polisïau, strategaethau neu weithdrefnau?

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi edrych ar y dolenni yn ein Ffyrdd cost isel a rhad ac am ddim o gyflawni Maniffesto Kids in Museums i gael syniadau defnyddiol, addas i'r gyllideb, am wella eich cynnig. Gallwch hefyd archwilio ein hadnoddau ar-lein eraill. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau i gymryd rhan yn ein rhaglenni a chyngor ymarferol ar sut i wneud eich amgueddfa'n fwy hygyrch.

Yn olaf, Atodiad 1: Mae ffynonellau ariannu'n gwneud amrywiaeth o awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd posibl o ariannu'r gwelliannau i'ch darpariaeth.

© Kids in Museums 2024. Mae Offeryn Hunanasesu Kids in Museums yn eiddo deallusol i Kids in Museums. Mae wedi ei fwriadu at ddefnydd mewnol yn unig ac ni chaiff eich sefydliad ei ddosbarthu'n allanol heb ganiatâd.